# Busnes Cymdeithasol Cymru

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Canllaw i gynllunio busnes



Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Manteision Ysgrifennu Cynllun Busnes | 3 |
| Ystyriaethau | 3 |
| Nodweddion Cynllun Busnes Da | 4 |
| Adran 1: Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Adran 2: Cefndir y Busnes | 6 |
| Adran 3: Nodau ac Amcanion y Busnes | 7 |
| Adran 4: Strwythur Rheoli a'r Sefydliad | 7 |
| Adran 5: Darparu Cynnyrch a Gwasanaethau | 8 |
| Adran 6: Safle | 9 |
| Adran 7: Cyfarpar | 9 |
| Adran 8: Y Farchnad ac Ymchwil i'r Farchnad | 9 |
| Adran 9: Marchnata a Gwerthu | 11 |
| Adran 10: Polisïau a Gweithdrefnau | 12 |
| Adran 11: Cyllid | 12 |
| Atodiadau | 13 |
| Gwybodaeth Bellach | 14 |



Cyhoeddwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru, 9 Tachwedd 2015

Cyllidir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Gydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.


Nid yw Busnes Cymdeithasol Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys y canllaw hwn, nac am ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu a wneir ar sail y wybodaeth a ddarperir.

Mae copïau o'r canllaw hwn ar gael yn [https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy/](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy/)

Mae ar gael yn Gymraeg ac mewn fformat print bras.

# Manteision Ysgrifennu Cynllun Busnes

Ysgrifennu cynllun busnes yw un o'r tasgau pwysicaf wrth gychwyn busnes cymdeithasol newydd neu wrth helpu i ehangu a datblygu busnes sydd eisoes yn bodoli. Bydd yn eich helpu i osod targedau, casglu'ch holl syniadau ynghyd, cynllunio ar gyfer dyfodol eich menter a chadarnhau bod eich syniadau ar gyfer eich busnes yn ymarferol a realistig. O ran busnesau cymdeithasol, bydd cynllun busnes sydd wedi ei ysgrifennu'n dda yn helpu i ddangos sut bydd eich busnes yn cynhyrchu gwarged y gellir ei ddefnyddio i gefnogi eich nodau cymdeithasol.

Hefyd, mae'r cynllun busnes yn offeryn hanfodol i ddenu nawdd / cyllid a buddsoddiad. Mae'n ddogfen ddeinamig a dylid ei hadolygu'n rheolaidd i helpu i fonitro a mesur perfformiad eich busnes cymdeithasol.

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r hyn ddylai cynllun busnes ei gynnwys.

Yn bennaf, rhywbeth ar eich cyfer chi a'ch partneriaid busnes yw'r cynllun a gall eich helpu:

- I roi eich syniadau a'ch ymchwil at ei gilydd mewn fformat trefnus a chlir.
- Penderfynu a yw, neu, pryd bydd eich busnes cymdeithasol yn fasnachol ymarferol.
- Dangos sut byddwch chi'n llwyddo i gyflawni eich nodau a'ch amcanion cymdeithasol.
- Egluro a chyfleu diben eich busnes cymdeithasol i'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Rhagweld sefyllfaoedd a thrafferthion yn y dyfodol a'u datrys cyn iddyn nhw fygwth llwyddiant eich busnes cymdeithasol.
- Pennu strategaeth eich busnes cymdeithasol gan ganolbwyntio ar ddulliau gweithredol y busnes, yr ochr ariannol a sut i farchnata eich cynnyrch a'ch gwasanaethau.
- Pennu targedau ac amcanion gan gynnwys gwerthiant a thargedau ariannol, fel y gallwch fonitro perfformiad eich busnes cymdeithasol yn barhaus.

# Ystyriaethau

Os bwriadwch ddefnyddio'ch cynllun busnes i argyhoeddi buddsoddwr, benthyciwr neu noddwr i gefnogi'ch busnes cymdeithasol, mae'n hanfodol deall eu hamcanion. Gallwch ddefnyddio'r cynllun busnes er mwyn bod yn siŵr eich bod yn bodloni eu meini prawf o ran buddsoddi a nawdd.

Mae'n bwysig sicrhau bod eich cynllun yn denu mwy o sylw na'r gweddill, a dylai fod yn hawdd ei ddarllen. Dylai gynnwys popeth, ac eto dylai fod yn gryno ac ni ddylai gynnwys unrhyw bethau sy'n croesddweud ei gilydd. Er enghraifft, gofalwch fod y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwariant ar gyfer cyfarpar yr un fath â'r ffigurau a roddwyd yn eich cynllun ariannol.

Os oes modd, dylech ddweud mor fuan â phosibl beth sydd angen i'ch darpar fuddsoddwr ei wybod amdanoch chi a'ch busnes. Os ydych chi wedi nodi'r rhagdybiaethau rydych chi wedi eu gwneud wrth ddod i gasgliad (y canlyniadau ymchwil i'r farchnad a arweiniodd at eich rhagolygon gwerthiant, neu eich rhesymau am leoli eich busnes mewn lle penodol, er enghraifft), bydd y buddsoddwr yn gwybod beth yw eich bwriadau ac yn gwybod eich bod wedi ystyried materion allweddol pwysig.

## Yr hyn sy'n nodweddu Cynllun Busnes Da

Mae rhai ystyriaethau allweddol i'w defnyddio wrth ddatblygu'r cynllun busnes:

- Dylech dybio nad yw'r darllenydd yn gwybod dim am y busnes.
- Dylech ddisgrifio'r busnes cymdeithasol yn gryno a chywir.
- Defnyddiwch iaith syml, gan osgoi defnyddio acronymau (e.e. LlC)
- Peidiwch â malu awyr – dylai pob brawddeg fod yn berthnasol a pheidiwch ailadrodd
- Defnyddiwch atodiadau ar gyfer gwybodaeth fanwl, fel rhagolygon ariannol, dadansoddiad o'r cyfarpar sy'n ofynnol, ymchwil i'r farchnad, CV, holiaduron.
- Defnyddiwch strwythur clir yn cynnwys paragraffau cryno sydd wedi'u rhifo.
- Gan amlaf ni ddylai cynllun busnes gynnwys mwy na 15-25 o dudalennau A4. Cadwch y cynnwys yn glir, yn gryno a chredadwy.
- Wrth ysgrifennu'r cynllun, dylech gynnwys cynifer ag sy'n ymarferol o bobl y busnes, a chynnwys rhanddeiliaid allweddol os oes modd – gall hynny ddatrys problemau cyfathrebu a chael cytundeb ar amcanion, strwythurau a dulliau o redeg y busnes.
- Fel rheol bydd y cynllun yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd a rhagolygon ariannol am y cyfnod hwn. Dylid nodi hyd y cyfnod yn glir.
- Rhaid angen cynnwys Crynodeb Gweithredol bob amser – bydd yn galluogi'r darllenydd i gael trosolwg o'r prosiect ar unwaith. Ni ddylai gymryd mwy na hanner awr i ddarllen y cynllun busnes cyfan.
- Dylai'r Bwrdd ddefnyddio'r cynllun fel dull parhaus o fonitro – nid dim ond dogfen i gael gafael ar gyllid ydyw, mae'n ddogfen waith bwysig.

***Nodwch: nid yw maint a graddfa pob busnes cymdeithasol yr un fath, felly ni fydd pob un o'r cwestiynau a'r awgrymiadau yn y canllaw hwn yn berthnasol. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu chi i ystyried y wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn llunio cynllun busnes cynhwysfawr.***

# Adran 1: Crynodeb Gweithredol

Mae'r Crynodeb Gweithredol yn adroddiad cryno o holl gynnwys eich cynllun, ac ni ddylai gymryd mwy na dwy dudalen. Dyma'r peth cyntaf y bydd y buddsoddwr yn ei ddarllen felly mae angen ei ysgrifennu'n dda. Dylai fod yn ddiddorol i'r darllenwr ac, yn ddelfrydol, dylai fod yn fwy atyniadol na gweddill y cynlluniau busnes y bydd y benthyciwr neu'r buddsoddwr yn eu derbyn. Fel rheol, caiff y crynodeb ei ysgrifennu olaf, a dylai gynnwys paragraff byr o bob adran o gorff y cynllun ei hun.

1.1 Beth yw enw'r busnes?

1.2 Rhowch adroddiad byr am gefndir y busnes.

1.3 Rhowch fanylion am leoliad y busnes.

1.4 Beth yw diben y cynllun busnes hwn?

1.5 Beth yw gweithgarwch y busnes?

1.6 Rhowch fanylion y cynnyrch a'r gwasanaethau.

1.7 Rhowch drosolwg byr o'r farchnad.

1.8 Disgrifiwch y nodau a'r amcanion yn gryno.

1.9 Rhowch fanylion y strwythur cyfreithiol (yn cynnwys dyddiadau perthnasol).

1.10 Disgrifiwch y strwythur rheoli a phrofiad.

1.11 Rhowch giplun / crynodeb ariannol.

(*Mae enghreifftiau o dablau ariannol isod y gallech eu defnyddio i gyflwyno'r wybodaeth hon).*

***Amcanestyniadau Ariannol***

Crynodeb o amcanestyniadau elw a throsiant dros 3 blynedd:

| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** |
|---|---|---|---|
| Incwm | £000,000 | £000,000 | £000,000 |
| Costau sefydlog | £000,000 | £000,000 | £000,000 |
| Costau newidiol | £000,000 | £000,000 | £000,000 |
| Elw | £00,000 | £00,000 | £00,000 |
| | | | |
| Incwm adennill costau | ££000,000 | ££000,000 | ££000,000 |

***Gofynion Cyllid***

Crynodeb o ofynion cyllid:

| | |
|---|---|
| Cerbyd | £000,000 |
| Cyfarpar | £000,000 |
| Cyfalaf gweithio | £000,000 |
| Arall… | £000,000 |
| **Cyfanswm** | **£000,000** |

***Ffynonellau Cyllid***

Crynodeb o'r gwahanol ffynonellau cyllid gofynnol:

| | |
|---|---|
| Cyllid y Cyfarwyddwyr | £000,000 |
| Benthyciad | £000,000 |
| Grant | £000,000 |
| Arall | £000,000 |
| **Cyfanswm** | **£000,000** |

# Adran 2: Cefndir Busnes

Mae'r adran hon yn gyfle i chi roi trosolwg manwl o gefndir y busnes. Dylai gynnwys manylion pwysig am ddatblygiad eich sefydliad a gweithgarwch y busnes, a gwybodaeth am eich strwythur cyfreithiol a'ch statws TAW.

2.1 Rhowch fanylion am gefndir y busnes.

2.2 Rhowch fanylion am amcanestyniadau gweithgarwch y busnes.

2.3 Rhowch fanylion y strwythur cyfreithiol.

2.4 Rhowch fanylion y statws TAW - nid yw Elusennau a Mentrau Cymdeithasol wedi'u heithrio'n statudol o Gofrestriad TAW. Mae'n bwysig i Elusennau a Mentrau Cymdeithasol sylweddoli natur eu hincwm ac unrhyw weithgareddau a fwriedir er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n croesi'r trothwy ar gyfer cofrestru.

# Adran 3: Amcanion y Busnes

Bydd yr adran hon yn eich helpu i ddisgrifio amcanion eich busnes. Bydd hefyd yn gyfle i egluro eich datganiad cenhadaeth fel sefydliad. Mewn atodiad i'r ddogfen hon rydym ni wedi paratoi geirfa o dermau busnes sy'n ymwneud â'r adran hon a'r cynllun busnes ehangach.

3.1 Beth yw'r amcanion busnes cymdeithasol yn yr hirdymor, y tymor canolig a'r byrdymor. Mae amcanion yn benodol.
Mae'r acronym CAMPUS yn ddefnyddiol wrth bennu amcanion. Mae'n sefyll am Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol

3.2 Beth yw'r datganiad cenhadaeth ar gyfer eich busnes cymdeithasol – mae Datganiad Cenhadaeth yn diffinio diben y sefydliad a'i brif amcanion ac yn egluro pam mae'r sefydliad yn bodoli

3.3 Pa ffactorau sy'n hanfodol i lwyddiant y busnes cymdeithasol?

3.4 Pa Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i asesu perfformiad eich busnes cymdeithasol? Dylid defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel dull rheoli o asesu perfformiad y busnes. Dylid pennu Dangosyddion cyn y cyfnod asesu. Er hynny, gallant newid os gwneir newidiadau sylweddol. Dylai'r Dangosyddion fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol).

# Adran 4: Strwythur Rheoli a'r Sefydliad

Mewn unrhyw fusnes, y bobl yw'r ased pwysicaf a bydd y ffordd y cânt eu trefnu yn effeithio ar effeithlonrwydd y busnes. Mae'n bwysig darparu gwybodaeth am Fwrdd y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr, y tîm rheoli a gweithredol ac unrhyw wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgarwch y busnes.

Byddai'n ddefnyddiol darparu siart o'r sefydliad, neu ddiagram sy'n dangos strwythur mewnol y busnes. Mae'r siart yn dangos yn glir rolau a chyfrifoldebau'r staff. Hefyd, mae'n dangos y berthynas rhwng yr amrywiol rolau a strwythur adrannau o fewn y busnes cymdeithasol. Gallech gynnwys CV y staff allweddol yn yr atodiadau.

4.1 Rhowch fanylion am Fwrdd y Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr - eu profiad a'u cyfrifoldebau.

4.2 A oes unrhyw aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl?

4.3 Rhowch fanylion y Tîm Rheoli a Gweithredol – eu profiad a'u cyfrifoldebau. Rhowch fanylion y sawl a fydd yn gyfrifol am ddyletswyddau gweinyddol a chyfreithiol.

4.4 Rhowch fanylion staff/ gweithwyr cyflogedig / tîm cefnogi eraill – eu profiad a'u cyfrifoldebau.

4.5 Rhowch fanylion am wirfoddolwyr - eu profiad a'u cyfrifoldebau.

4.6 A oes gan yr aelodau allweddol y deallusrwydd ariannol, a'r profiad angenrheidiol o'r sector, o reoli ac o reoli prosiectau i redeg busnes o'r maint hwn?

4.7 Rhowch fanylion am yr aelodau – cefndir aelodau'r busnes cymdeithasol a disgrifiad o'ch dulliau o ymgysylltu â'r aelodau

4.8 Beth yw'r gofynion o ran cefnogaeth allanol a mentora staff allweddol?

4.9 Beth yw'r gofynion staff ar gyfer y dyfodol / bylchau yn y timau / unrhyw gamau lliniaru?

4.10 Rhowch fanylion gofynion o ran sgiliau allweddol / argaeledd cyffredinol

4.11 A yw'r busnes yn dibynnu ar unrhyw berson unigol?

4.12 A oes yna unrhyw amrywiadau o ran llafur a allai effeithio ar eich busnes?

4.13 Rhowch fanylion unrhyw gynlluniau neu bolisïau hyfforddi. Sut caiff hyn ei wireddu yn y busnes?

# Adran 5: Darparu Cynnyrch a Gwasanaethau

Esboniwch yn glir beth mae'r busnes cymdeithasol yn bwriadu ei ddarparu, ai cynnyrch neu wasanaeth neu'r ddau. Mae'n bwysig sôn am bopeth ond mae angen cadw'r cyfan mor syml â phosib hefyd - cofiwch efallai nad yw'r darllenydd yn gwybod dim am y cynnyrch. Esboniwch yn glir sut mae'n cael ei gynhyrchu/cyflenwi/darparu.

5.1 Pa gynhyrchion neu wasanaethau gaiff eu darparu? Esboniwch yn glir beth ydyn nhw, gan nodi elfennau'r gwahanol gynhyrchion gwasanaeth.

5.2 Nodwch y manteision i'r cwsmer – gan ystyried nodweddion allweddol pob cynnyrch neu wasanaeth a pha fantais gaiff y cwsmer. Gallech gyflwyno'r wybodaeth mewn tabl er mwyn sicrhau bod y cyfan yn hawdd ei ddeall.

5.3 Beth yw effaith gymdeithasol y busnes, neu effaith y cynnyrch/gwasanaeth?

5.4 Rhowch fanylion gweithgynhyrchu neu ddarparu eich cynhyrchion neu wasanaethau?

5.5 Ymhle a sut ydych chi'n dosbarthu eich cynhyrchion a'ch gwasanaeth? Mae angen i chi feddwl am y llwybr y bydd eich nwyddau/gwasanaethau yn ei ddilyn o'r ffynhonnell i'r defnyddiwr olaf. Gallai hyn alw am ddefnyddio cyfryngwyr, dosbarthwyr, cyfanwerthwyr ac adwerthwyr. Mae angen i chi ystyried sut mae pob llwybr yn effeithio ar brisiau a sut byddech chi'n marchnata pob llwybr yn effeithiol.

5.6 Beth yw'r amcanion prisio? Mae angen i chi ystyried y farchnad gystadleuol yn ogystal â'ch amcanion o ran maint eich elw ac adennill costau.

5.7 Faint yw'r gost o gynhyrchu eich cynnyrch neu wasanaeth?

5.8 Rhowch fanylion y telerau busnes / anfonebu / neu gasglu taliadau.

5.9 A fydd cynnyrch neu wasanaeth (newydd) i'w datblygu yn y dyfodol?

5.10 Beth yw eich amcanestyniad o hyd oes eich cynnyrch neu wasanaeth?

5.11 A oes angen i'r busnes gael ei achredu er mwyn bod yn gystadleuol yn y farchnad?

## Adran 6: Safle

Dylech ddarparu crynodeb o fanylion rhent/trethi, costau cynnal a chadw a gorbenion eraill sy'n gysylltiedig â'r safle. Hefyd dylech egluro pam rydych chi wedi dewis y lleoliad hwn ar gyfer y busnes.

6.1 Rhowch fanylion y safle / ers pryd y defnyddioch chi'r safle ac unrhyw fanylion yn ymwneud â lleoliad y busnes.

6.2 Rhowch fanylion maint y safle/ A yw'n ddefnydd effeithiol o le?

6.3 Rhowch fanylion perchnogaeth / prydlesu / telerau / cymalau terfynu ac ati.

6.4 Rhowch fanylion unrhyw elw rhent os yw'n berthnasol.

6.5 A yw'r safle yn ddigonol i fodloni gofynion y busnes yn awr ac yn yr hirdymor?

## Adran 7: Cyfarpar

Dylid cynnwys manylion unrhyw gyfarpar gofynnol ynghyd â rhestr o gyflenwyr a dyfynbrisiau.

7.1 Rhowch fanylion unrhyw gyfarpar cyfredol / cerbydau modur / offer a pheiriannau / gosodiadau a ffitiadau (yn cynnwys oed / math ac ati).

7.2 A yw'r asedau'n ddigonol ar gyfer gofynion y busnes yn y dyfodol?

7.3 A oes angen cyfarpar ychwanegol yn y byrdymor / tymor canolig / hirdymor?

7.4 Rhowch fanylion unrhyw gynllun gwariant cyfalaf.

7.5 A oes angen unrhyw gyfarpar ychwanegol?

7.6 A oes ffynonellau cyfarpar / deunydd ar gael yn hawdd?

7.7 Rhowch fanylion cyflenwyr a thelerau masnachu - gallech gyflwyno'r wybodaeth mewn tabl er mwyn sicrhau bod y cyfan yn hawdd ei ddeall.

7.8 Rhowch fanylion y safonau ansawdd os ydyn nhw'n berthnasol.

## Adran 8: Y Farchnad ac Ymchwil i'r Farchnad

Mae'n bwysig dros ben eich bod yn defnyddio'r adran hon i argyhoeddi'r darllenwr y bydd unrhyw incwm a nodwyd yn yr adran ariannol yn cael ei wireddu. Disgrifiwch unrhyw ymchwil i'r farchnad a gyflawnwyd (yn cynnwys ymchwil gwreiddiol, ymchwil desg a data hanesyddol) neu brosiectau peilot.

8.1 Rhowch fanylion gorolwg y farchnad. Pwy yw a ble mae'r farchnad, sut mae cyrraedd y farchnad, pwy yw'r cystadleuwyr, a phwy yw'r sawl sy'n dylanwadu ar y farchnad?

8.2 Rhowch fanylion unrhyw ymchwil i'r farchnad a gwblhawyd (yn cynnwys enghreifftiau o ddulliau

Ymchwilio i'r Farchnad posibl).

8.3 Ym mha feysydd bydd y busnes cymdeithasol yn gweithredu?

8.4 Rhowch fanylion am y farchnad darged a phroffiliau cwsmeriaid. A yw'r farchnad yn hygyrch?

8.5 Rhowch fanylion gwybodaeth ddemograffig berthnasol.

8.6 Rhowch fanylion eich Pwynt Gwerthu Unigryw.

8.7 A oes galw amlwg am eu cynnyrch / gwasanaeth?

8.8 Rhowch fanylion unrhyw ystyriaethau Eiddo Deallusol.

8.9 Pa ffactorau allanol sy'n debygol o effeithio ar eich busnes? (Cymdeithasol, Economaidd, Gwleidyddol, Cyfreithiol, Amgylcheddol a Thechnolegol) - Ceg Cath yw'r acronym am cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol, amgylcheddol a thechnolegol, neu PESLTE a ddefnyddir i gyfleu'r geiriau yn Saesneg. Mae dadansoddiad Ceg Cath yn rhoi fframwaith ar gyfer adolygu eich busnes yng ngoleuni ffactorau allanol a all effeithio arno yn y dyfodol. Trwy barhau'n ymwybodol o dueddiadau a newidiadau yn eich amgylchedd busnes, gall eich busnes ennill mantais gystadleuol. Trwy gynnal dadansoddiad Ceg Cath gallwch ddangos eich bod wedi ystyried y darlun mawr wrth ysgrifennu eich cynllun busnes. Gall y broses eich ysbrydoli a rhoi syniadau newydd i chi neu eich rhybuddio am beryglon posibl y dylech fod yn ymwybodol ohonynt yn y farchnad.

8.10 A oes yna unrhyw ddatblygiadau tebygol yn y farchnad yn y byrdymor / tymor canolig / hirdymor?

8.11 A oes cynlluniau yn y dyfodol i ehangu i mewn i farchnadoedd eraill?

8.12 Pa mor sensitif i brisiau yw'r farchnad?

8.13 Disgrifiwch unrhyw newidiadau tymhorol a / neu dueddiadau yn y farchnad(marchnadoedd)?

8.14 Darparwch fanylion am eich prif gystadleuwyr ac ym mha ffordd maen nhw'n gystadleuol? Sut byddan nhw'n ymateb wrth i chi fynd i mewn i'w marchnad nhw. Gallech gyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf tabl er mwyn sicrhau ei bod wedi'i chyflwyno'n glir.

8.15 Pa fanteision sydd gan eich busnes sy'n eich gwneud yn well na'ch cystadleuwyr?

8.16 A oes modd i gystadleuwyr newydd ddod i mewn i'r farchnad? Sut byddai hynny'n effeithio ar eich busnes?

8.17 A oes modd defnyddio cynhyrchion amgen yn y farchnad hon? (Meddyliwch am lawrlwytho ffilmiau a rhentu DVD)?

8.18 I ba raddau byddwch chi'n dibynnu ar gyflenwyr i allu darparu eich cynhyrchion a gwasanaethau?

8.19 Faint o ddewis a phŵer sydd gan gwsmeriaid yn y farchnad? Ydyn nhw'n deyrngar? A yw'n hawdd iddyn nhw symud at gyflenwyr eraill?

8.20 Beth yw eich mantais gystadleuol? Mae ffactorau cystadleuol posib yn cynnwys:

- ► Hanes llwyddiannus o ddarparu cynhyrchion / gwasanaethau o ansawdd uchel am bris cystadleuol
- ► Mae cynnyrch / gwasanaeth at ofynion unigol yn golygu y bydd y cwsmer yn derbyn cynnyrch / gwasanaeth sy'n cyfateb i'w union ofynion
- ► Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- ► Defnyddio cyflenwyr profiadol er mwyn sicrhau ansawdd a pharhad
- ► Profiad cyfarwyddwyr / staff (ym mhob agwedd ar y busnes).

8.21 Cwblhau dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau). – *Mae templed enghreifftiol SWOT ar gael yn Atodiadau'r canllaw hwn.*

# Adran 9: Gwerthu a Marchnata

Dylai adran gwerthu a marchnata eich cynllun busnes ystyried eich prif strategaeth ar gyfer gwerthu a hysbysebu, a chynllun marchnata cyffredinol. Mae angen i'ch strategaethau gwerthu a marchnata gyd-fynd â'ch cenhadaeth a'ch amcanion busnes cyffredinol. Mae dylanwadau allanol, yn cynnwys newidiadau yn y farchnad, cystadleuaeth a'r hinsawdd economaidd gyffredinol yn chwarae rhan yn eich cynllun ar gyfer marchnata eich busnes.

9.1 Rhowch fanylion eich strategaeth farchnata.

9.2 Beth yw eich neges farchnata a sut byddwch chi'n ei chyfleu i'r marchnadoedd targed? Neges farchnata yw'r term i ddisgrifio sut byddwch chi'n dweud pwy ydych chi ac yn egluro pam mae eich sefydliad yn bodoli. Mae'n cyfleu pwyntiau allweddol rydych chi am eu gwneud i gyrraedd eich cynulleidfa. Ac mae bob amser ynghlwm wrth eich brand.

9.3 Nodwch eich dulliau marchnata. Gallech ystyried rhai o'r dulliau a nodir isod. .

| | | |
|---|---|---|
| *Post Uniongyrchol* | *Ar Lafar* | *Arddangosfeydd* |
| *Taflenni / Pamffledi / Cardiau* | *Drws i Ddrws / Galw Di-wahoddiad* | *Gwefannau* |
| *Tudalennau Melyn / Yell / Cyfeiriaduron y We* | *Partïon Gwerthu* | *Cyfryngau Cymdeithasol* |
| *Datganiadau i'r Wasg* | *Telewerthu* | *Hysbysebu talu a chlic* |
| *Radio / Teledu* | *Asiantiaid* | *Hysbysiadau symudol* |
| *Hysbysebion* | *Bargeinion (pris gostyngol, BOGOF ac ati)* | |

9.4 Rhowch fanylion eich brand. Ni ddylech gyfyngu hyn i'ch logos a'ch dewis o liwiau. Soniwch am eich safonau gwasanaeth ac addewid ehangach eich busnes, a sut byddwch yn ei fonitro er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal.

9.5 Rhowch fanylion eich partneriaethau / rhwydweithiau / systemau cefnogi.

9.6 Rhowch fanylion eich strategaethau gwerthu.

9.7 Rhowch fanylion eich ffrydiau gwerthu. Mae ffrydiau gwerthu yn ffordd o ddod â chynhyrchion neu wasanaethau i'r farchnad fel y gall defnyddwyr eu prynu. Gall ffrwd werthu fod yn uniongyrchol os yw busnes yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cwsmer, neu gall fod yn anuniongyrchol os bydd cyfryngwr megis adwerthwr neu ddeliwr yn gwerthu'r cynnyrch i gwsmeriaid.

9.8 Rhowch fanylion eich staff gwerthu, profiad a chyfrifoldebau.

9.9 Rhowch fanylion eich strategaeth gwasanaeth cwsmeriaid.

9.10 Rhowch fanylion eich dulliau dosbarthu a logisteg.

# Adran 10: Polisïau a Gweithdrefnau

Mae prosesau, gweithdrefnau a safonau'n egluro sut y dylai busnes weithredu. Mae'n hynod bwysig datblygu prosesau, gweithdrefnau a safonau os ydych chi wrthi'n sefydlu busnes, neu os ydych chi'n ceisio ailadeiladu neu ddatblygu busnes sydd wedi bod yn tanberfformio.

10.1 Sut mae eich busnes cymdeithasol yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol?

10.2 Rhowch restr lawn o'ch polisïau a'ch gweithdrefnau yn yr Atodiadau. Ynddi dylech nodi'r prif bolisïau a'r gweithdrefnau sy'n effeithio ar eich busnes.

10.3 Rhowch fanylion unrhyw gydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol.

10.4 Rhowch fanylion unrhyw yswiriant.

# Adran 11: Amcanestyniadau Ariannol

Mae rhagolygon llif, rhagolygon elw a cholled, a rhagolygon mantolenni yn ofynnol am y deuddeng mis cyntaf o leiaf, gorau oll os ydyn nhw am y tair blynedd cyntaf, a dylid eu cynnwys yn yr atodiadau. Rhaid i'r rhain ddangos yr holl ofynion cyfalaf gweithio, yr incwm disgwyliedig o ran grantiau, benthyciadau, ffioedd a gwerthiant a'r holl gostau megis cyflogau, rhent, ffôn a gorbenion eraill. Rhaid egluro'r costau hyn yn llawn yn yr adran hon gan ddarparu gwybodaeth gryno a dadansoddiad o sensitifrwydd, e.e., y sefyllfa pe bai cynnydd annisgwyl o 5% yn y gorbenion.

11.1 Nodwch gost pob uned ar gyfer gwerthiant amcanestynedig (ystyriwch raddfa'r farchnad ar gyfer cynhyrchion / gwasanaethau tebyg) a rhowch amcan o'r nifer y disgwyliwch eu gwerthu bob mis. Os na allwch fod mor benodol â hyn, rhowch amcan o'r hyn y credwch fydd y trosiant misol tebygol ar sail eich marchnata. Cofiwch gynnwys amrywiadau tymhorol a byddwch yn ddarbodus. Dylech roi dadansoddiad fesul gweithgaredd yn y llif arian. Hefyd, dylech nodi natur y refeniw sy'n dod i mewn i'r busnes, h.y. contractau tymor.

11.2 Dylech sicrhau bod eich amcanestyniadau yn rhoi cymhariaeth fesul blwyddyn a dylech geisio darparu rhagdybiaethau sy'n egluro unrhyw newidiadau i'r ffigurau fesul blwyddyn. Hefyd, dylech nodi a yw'r gweithgaredd yn sensitif i amser.

11.3 A yw'r amcanestyniadau yn ystyried dulliau talu contract gwahanol, e.e., taliadau ymlaen llaw / ôl-daliadau?

11.4 Ydych chi'n gallu gwahaniaethu rhwng cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig?

11.5 Beth fydd y busnes yn ei wneud os bydd yn colli unrhyw gontractau allweddol?

11.6 Ydych chi'n gallu nodi unrhyw bryniannau sy'n rhaid i chi eu gwneud er mwyn cyrraedd y trosiant uchod? Yn eich busnes, gallech fod yn y sefyllfa nad oes unrhyw bryniannau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r trosiant.

11.7 Bydd angen i chi gyfrifo eich gorbenion. Mae'r costau y gallech fynd iddynt yn cynnwys gwres, golau, rhent ac ati. Dylech ddarparu esboniadau llawn ar gyfer y costau hyn yn eich rhagdybiaethau.

11.8 Dylech nodi manylion y gyflogres. Nodwch nifer y gweithwyr cyflogedig, y graddfeydd cyflog gwahanol a'r oriau a weithir. Os yw staff yn cael eu talu ar gomisiwn neu'n uniongyrchol yn ôl allbwn, rhowch nodyn yn egluro sut mae hyn yn cael ei gyfrifo.

11.9 A yw cyfarpar yn bwysig i rediad y busnes a faint yw'r gost o adnewyddu cyfarpar a pha mor aml mae angen gwneud hynny?

11.10 Dylech ddarparu rhestr wedi'i diweddaru o ddyledwyr a chredydwyr yn yr atodiadau.

11.11 A oes polisi clir gan y busnes mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn?

# Atodiadau

Dylai'r cynllun busnes fod yn hawdd i'w ddarllen a chwbl berthnasol. O'u defnyddio'n gywir, gall atodiadau eich helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

I ddechrau, dylid cynnwys y rhagolygon ariannol manwl yn yr atodiad, fel rheol yn Atodiad 1, am eu bod yn bwysig dros ben. Dylid dewis prif bwyntiau o'r rhagolygon hyn a'u cynnwys ym mhrif gorff y cynllun.

Gallai atodiadau eraill gynnwys:

- Rhestr gyfoes o ddyledwyr a chredydwyr.
- CV ar gyfer unigolion allweddol sydd ar Fwrdd y Busnes neu yn y strwythur gweithredol.
- Rhestrau o'r cyfarpar gofynnol neu bryniannau cyfalaf eraill gyda dyfynbrisiau perthnasol.
- Manylion unrhyw ymchwil i'r farchnad a gwblhawyd a holiaduron enghreifftiol.
- Manylion y cynnyrch, lluniau ac ati.

- Manylion y safle a ffotograffau, dyfynbrisiau, manylebau.
- Unrhyw lythyrau o gefnogaeth.

# Gwybodaeth Bellach

Mae'r canllaw wedi'i gynhyrchu ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru. Noddir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflawnir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Nod Busnes Cymdeithasol Cymru yw cefnogi busnesau cymdeithasol sydd â'r uchelgais i dyfu. I gael rhagor o gymorth, cysylltwch â:

Busnes Cymru: http://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol/ Ffôn: 03000 6 03000

Neu ewch i'r pecyn cymorth ar-lein http://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol/

# Atodiadau

**1. Geirfa**

Dyma restr o dermau busnes allweddol a ddefnyddir yn y canllaw hwn.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| ***Bwriadau*** | Y rheswm am fodolaeth y sefydliad. |
| ***Diben*** | Y rheswm am fodolaeth y sefydliad. |
| ***Cenhadaeth*** | Diffiniad o ddiben a phrif amcanion y sefydliad, Mae datganiad cenhadaeth yn egluro pam mae'r sefydliad yn bodoli. |
| ***Gweledigaeth*** | Y freuddwyd y dymuna'r arweinwyr i'r sefydliad ei gwireddu.<br>Mae'r *Weledigaeth* yn creu darlun o'r hyn fydd y sefydliad ar adeg |
| ***Gwerthoedd*** | Yr egwyddorion sy'n cyfeirio at ymddygiad a gweithredoedd. Mae *Gwerthoedd* yn arwain pobl ynghylch sut dylai pethau gael eu gwneud. |
| ***Ethos*** | Swm a sylwedd gwerthoedd y sefydliad. |
| ***Nodau*** | Bwriadau eang y sefydliad, yn aml y rhai hirdymor. |
| ***Amcanion*** | Y pethau y gobeithir y gellir eu gwireddu. |
| ***Dibenion*** | Y pethau penodol mae sefydliad yn gobeithio eu cyflawni. |
| ***Targedau*** | Yr union ganlyniadau mae'r sefydliad neu'r unigolyn am eu cyflawni. |
| ***Allbynnau*** | Y gweithgareddau a gyflawnir neu'r pethau a wneir: yr hyn a gynhyrchir neu a ddarperir. |
| ***Canlyniadau*** | Y newid sy'n ganlyniad i'r *allbynnau*: eu heffaith weladwy. |
| ***Effaith*** | Y graddau y gellir priodoli'r canlyniadau i'r gweithgareddau, gan eu |

***2. SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau)***

Mae dadansoddiad SWOT, sef dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau yn eich helpu i ganolbwyntio ar eich cryfderau a'ch gwendidau mewnol, yn ogystal â rhai eich staff, eich cynnyrch / gwasanaeth a'ch prosesau busnes. Ar yr un pryd, mae'n eich galluogi i edrych ar y cyfleoedd allanol a'r bygythiadau sy'n effeithio ar eich busnes, megis tueddiadau'r farchnad a defnyddwyr, gweithgareddau cystadleuwyr, newidiadau technolegol, deddfwriaeth a materion ariannol.

Bydd yn eich helpu i ganolbwyntio ar eich strategaeth fusnes ac ar y materion pwysig rydych chi'n eu hwynebu.

| **Cryfderau** |
|---|
| **Sut gall eich busnes elwa ar y cryfderau hyn?** |
| **Gwendidau** |
| **Sut gall eich busnes leihau'r gwendidau hyn?** |
| **Cyfleoedd** |
| **Sut gall eich busnes elwa ar y cyfleoedd hyn?** |
| **Bygythiadau** |
| **Sut gall eich busnes leihau'r bygythiadau hyn?** |

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX
Ffôn: 0300 111 5050
Ebost: info@wales.coop
Y We: www.cymru.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.